

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
PEN-Y-BONT AR OGWR



2021 - 2024

## Strategaeth Gaffael Gymdeithasol Gyfrifol




[www.bridgend.gov.uk/cy](http://www.bridgend.gov.uk/cy)



# Tabl Cynnwys

Rhagair	3
Pam mae Caffael yn Bwysig i Gyngor Bwrdeisdref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	4
Cyd-destun Caffael	6
Amcanion Caffael Sefydliadol	10
Gwneud Gwariant Caffael yn Fwy Hygyrch i Fusnesau Bach Lleol a'r Trydydd Sector	11
Gwella Arferion Gwaith Teg a Diogelu a Fabwysiadwyd gan Gyflenwyr	12
Cynyddu Manteision Cymunedol a Ddarperir gan Gyflenwyr	13
Cyfrannu at Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030	14
Sicrhau Gwerth am Arian a Rheoli'r Galw	15
Sicrhau Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Llywodraethiant Cadarn a Thryloyw	16
Hyrwyddo Atebion Arloesol ac Arfer Gorau	17
Prif Alluogwyr	18
Monitro, Adolygu ac Adrodd	19
Gymorth i Gyflenwyr a Gwybodaeth Bellach	19



# Rhagair

Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo ond fel gweddill y byd mae pandemig Covid-19 wedi effeithio arno. Wrth i ni geisio gwella o effeithiau Covid-19 rydym am ddefnyddio gwariant blynyddol y cyngor o dros £186m i gefnogi'r economi leol a rhanbarthol. Mae ein Strategaeth Gaffael Gymdeithasol Gyfrifol gyntaf yn rhoi lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae'r cyngor yn cydnabod mai caffael fydd un o'r dulliau allweddol sy'n galluogi'r cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac i sicrhau bod y cyngor yn prynu'r peth iawn ar yr adeg iawn am y pris cywir.

Fel y nodir yn Amcan Llesiant tri ein Cynllun Corfforaethol - Defnydd Doethach o Adnoddau

***“Rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i wneud defnydd doethach o'n hadnoddau, gan edrych ar wahanol ffyrdd o ddarparu gwasanaethau, cofleidio technoleg a gweithio gyda phartneriaid a'n cymunedau i ddarparu gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir. Fel hyn gallwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni ein hamcanion llesiant a gwella lles ein dinasyddion tra'n cyflawni'r arbedion arfaethedig hynny.”***

Mae'r cyngor yn wynebu nifer o heriau sydd wedi'u dogfennu'n dda gan gynnwys ein hymateb i effaith pandemig Covid-19 ar ein cymunedau a'n busnesau, ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'n hymateb i reoli cyfyngiadau cyllidebol parhaus ar adeg o alw cynyddol am wasanaethau. Rydym am ddefnyddio ein rhaglen gaffael i:

- Cefnogi gweithredu Strategaeth Datgarboneiddio 2030 y cyngor a'r economi gylchol;
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fusnesau lleol, yn enwedig y rhai sy'n dangos arferion gwaith teg;
- Cefnogi'r economi sylfaenol;
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd cymdeithasol / buddion cymunedol;
- Gweithredu fel sbardun allweddol i gyflawni ein huchelgeisiau llesiant ac fel sbardun i newid sefydliadol;
- Sicrhau gwerth am arian wrth ystyried cost oes gyfan.



Mark Shephard  
Prif Weithredwr



Arweinydd y Cyngor  
Huw David



# Pam mae Caffael yn Bwysig i Ben-y-bont ar Ogwr


Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu ystod eang o wasanaethau statudol a dewisol i dros 147,000 o drigolion. Mae'r cyngor yn gwneud hyn drwy ei weithlu ei hun a thrwy dros 1,700 o sefydliadau preifat a thrydydd sector.

Mae gan y cyngor gyfrifoldeb i reoli arian cyhoeddus gyda gonestrwydd a sicrhau bod ei £186m o wariant caffael blynyddol yn cael ei reoli yn y fath fodd fel ei fod yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau ehangach. Mae'r strategaeth hon yn nodi:

- Rôl caffael o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni tri phrif amcan Llesiant Corfforaethol y cyngor (gweler Ffig 1) a chynlluniau busnes y gyfarwyddiaeth.
- Sut y bydd y cyngor yn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni.
- Saith amcan caffael allweddol a'r hyn y bydd y cyngor yn ei wneud i gyflawni'r amcanion hyn a sut y dangosir cyflawniad.
- Y newidiadau allweddol a wneir i wella'r ffordd y rheolir ei wariant allanol ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith.
- Yr hyn y bydd y cyngor yn ei wneud i wella capasiti ac arbenigedd caffael.



Ffigur 1: Amcan Llesiant y Cyngor



Nododd adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2021 "Caffael Llesiant yng Nghymru" nifer o heriau a chyfyngiadau wrth gaffael yn gynaliadwy gan gynnwys:

- Prynu i mewn sefydliadol, cynnwys ymwneud ac ymgysylltu arweinyddiaeth  
- Arweinwyr sy'n methu â gweld caffael yn swyddogaeth neu'n ysgogiad pwysig wrth gyflawni amcanion corfforaethol (llesiant).
- Dim digon o adnoddau a chapasiti o fewn y swyddogaeth gaffael ac ymhlith gweithwyr caffael proffesiynol.

## Sut rydym yn rheoli Caffael


Mae saith Tîm Caffael cryf y cyngor yn defnyddio dull rheoli categorïau ac yn gweithio gyda Chyfarwyddiaethau i gyflawni eu gofynion, tra'n darparu goruchwyliaeth gorfforaethol i'r cyngor. Maent yn:

- Ceisio sicrhau bod gwasanaethau a gaffaelwyd yn rhoi gwerth da am arian
- Ceisio defnyddio'r effeithlonrwydd a gynigir gan fframweithiau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith datgarboneiddio a rhaglenni moderneiddio ysgolion yr 21ain ganrif.
- Darparu cymorth caffael i brosiectau seilwaith, gan gynnwys fel canlyniadau i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a fydd yn gweld buddsoddiad sylweddol a helaeth mewn seilwaith a busnes yn y fwrdeistref sirol.
- Galluogi adfywio economaidd drwy gaffael a chydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol.
- Yn archwilio'r potensial i sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl drwy weithredu'r defnydd o'r ThCMau yng Nghymru.
- Yn gweithio i ymgorffori'r "pum ffordd o weithio" yn y prosesau caffael a chodi ymwybyddiaeth gyda chyflenwyr.

## Gwariant Caffael

Gwariant caffael yn ôl cyfarwyddiaeth

CF HEB FOD YN GYF. PRIF WEITHREDWR CYMUNEDAU ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOLA LLESIAINT



Yn 2020/21 roedd gwariant y cyngor gyda thrydydd partion yn £186m gyda £172m yn wariant refeniw a £14m yn wariant cyfalaf. Mae'r siart yn dangos mai'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant oedd â'r gwariant uchaf (£66.6m) ac yna'r gyfarwyddiaeth Cymunedau (£52m).



# Cyd-destun Caffael

Mae nifer o flaenoriaethau, dyheadau polisi a gofynion deddfwriaethol wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth hon. Mae'r sesiynau'n cynnwys:

## Cyd-destun Deddfwriaethol y DU

Mae'r ffordd y mae'r cyngor yn caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael ei lywodraethu'n bennaf gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCRs 2015) a oedd yn trosi Cyfarwyddbau'r UE ac Egwyddorion Cytuniad yr UE yn gyfraith y DU. Mae PCRs 2015 wedi'u seilio ar egwyddorion symud nwyddau yn rhad ac am ddim, rhyddid i sefydlu a rhyddid i ddarparu gwasanaethau. Caiff yr egwyddorion hyn eu hategu gan werthoedd triniaeth deg, peidio â gwahaniaethu, cydnabyddiaeth gyfartal, cyfranoledd a thryloywder.


Mewn ymateb i'r DU yn gadael yr UE, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyrdd: Trawsnewid Caffael Cyhoeddus a daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mawrth 2021. Nod datganedig Llywodraeth y DU yw cyflymu a symleiddio prosesau caffael, rhoi gwerth am arian wrth wraidd y broses, a rhyddhau cyfleoedd i fusnesau bach, elusennau a mentrau cymdeithasol arloesi wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hefyd yn edrych i ymgorffori i'r gyfraith egwyddorion caffael cyhoeddus: gwerth am arian, lles y cyhoedd, tryloywder, uniondeb, effeithlonrwydd, trin cyflenwyr yn deg a pheidio â gwahaniaethu.

Yn ogystal â PCRs 2015, mae angen i'r cyngor sicrhau bod ei bolisiau a'i arferion caffael yn cadw at ystod o ofynion deddfwriaethol ychwanegol gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae hwn yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nod y Ddeddf yw helpu i greu Cymru yr ydym oll eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Caffael yw un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid yng nghyhoeddiadau statudol y Ddeddf ac mae'r Ddeddf yn cydnabod y rôl bwysig y gall caffael ei chwarae:

*"Bydd rôl caffael yn rhan bwysig o'r ffordd y mae corff cyhoeddus yn dyrannu adnoddau o dan y Ddeddf. Disgwylir i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol presennol mewn perthynas â chaffael a'u bod hefyd yn cymhwysio Datganiad Polisi Caffael Cymru. Mae'r Polisi hwn, sy'n mabwysiadu diffiniad y Tasglu Caffael Cynaliadwy o gaffael cynaliadwy. Mae hwn yn nodi'r arferion caffael a'r camau gweithredu penodol a ddisgwylir gan bob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru"*



## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cyflwynodd y Ddeddf hon ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i hyrwyddo datblygiad (yn eu hardal) sefydliadau dielw i ddarparu gofal a chymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys gwasanaethau ar draws yr ystod sy'n ffurfio'r trydydd sector - mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, a gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr.

## Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Disgwylir i'r Bil gael ei ddeddfu yn 2022 ac mae'n nodi ystod o gamau gweithredu y bydd eu hangen ar y cyngor i sicrhau ei fod yn gweithredu. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Strategaeth Gaffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol a fydd yn nodi sut y bydd y Cyngor yn caffael mewn ffordd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, sut y bydd yn sicrhau gwerth am arian a sut y bydd yn sicrhau bod anfonebau'n cael eu talu o fewn 30 diwrnod. Bydd hefyd yn ofynnol cyhoeddi Adroddiad Caffael blynyddol, cynnal a chyhoeddi cofrestr contractau a chyhoeddi blaengynllun contract/biblinell.

Bydd yn ofynnol i'r cyngor gaffael mewn ffordd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyfrannu at gyflawni- (a) y nodau llesiant a restrir yn adran pedwar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a (b) y nod gwaith teg (o fewn yr ystyr a roddir gan adran pedwar), y cyfeirir atynt at ddibenion y rhan hon fel y "nodau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol." Rhaid i gyngor bennu a chyhoeddi amcanion a gynlluniwyd i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

## Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)

Mae'r trydydd [DPCC](#) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn nodi'r 10 egwyddor y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sector cyhoeddus Cymru eu dilyn er mwyn caffael llesiant i Gymru yn seiliedig ar Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ysgogi gweithgarwch caffael cydweithredol yng Nghymru i sicrhau'r canlyniadau gwerth cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy hirdymor mwyaf posibl allan o wariant cyhoeddus.
- Cefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chaffael blaengar, megis yr Economi Sylfaenol a Chylchol.
- Atal newid yn yr hinsawdd drwy flaenoriaethu lleihau carbon a dim allyriadau drwy gaffael mwy cyfrifol a chynaliadwy.
- Cydweithio â rhanddeiliaid i hyrwyddo cyfle cyfartal a gwaith teg yng Nghymru.
- Gwella integreiddiad a phrofiad defnyddwyr ein hatebion a'n ceisiadau digidol, gan wneud y defnydd gorau o'n data caffael i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.



## Mentrau Llywodraeth Cymru

### Buddion i'r Gymuned

Gyda'r nod o sicrhau'r gwerth mwyaf am bunt Cymru wrth dendro contractau.

### Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i 11 ymrwymiad y Cod Ymarfer gan gynnwys y materion cyflogaeth canlynol:

- Caethwasiaeth Fodern a cham-drin hawliau dynol.
- Cosbrestru.
- Hunangyflogaeth ffug.
- Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau.
- Talu'r Cyflog Byw.



### Agor Drysau: Siarter Caffael sy'n Dda i Fusnesau Bach a Chanolig

Yn cydnabod bod 99% o fusnesau Cymru yn fusnesau bach a chanolig a'u rôl bwysig yn yr Economi Sylfaenol. Mae'r Siarter yn nodi amrywiaeth o ymrwymadau yn y sector cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig ac ymrwymadau BBaChau i'r sector cyhoeddus.

### Nodiadau Polisi Caffael Cymru

Cyfes o nodiadau Canllaw ar gyfer sector Cyhoeddus Cymru.

### Cynnydd tuag at Ddatblygu Tirwedd Gaffael i Gymru

Yn cydnabod rôl caffael ar gyfer cefnogi cyflawni yn erbyn nifer o feysydd polisi pwysig. Mae'n nodi saith ymrwymiad sy'n cydnabod bod angen dull caffael newydd yng Nghymru a saith ymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd tuag at gaffael. Ategir y rhain gan naw maes trawsnewid caffael.

### Siarter Dur y DU

Mae'r cyngor wedi llofnodi'r siarter ac wedi ymrwymo i weithredu'r camau pan fo'n briodol i wneud hynny, gan gynnwys y canlynol:

- Gosod gofyniad yn ein contractau priodol sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu tarddiad dur.
- Pennu'r defnydd o gynhyrchion dur sydd wedi'u hachredu i BRE Standard BES 6001 mewn contractau priodol.
- Cyflwyno gofyniad i geisiadau tendro gynnwys cynlluniau'r gadwyn gyflenwi.



## Pen-y-bont ar Ogwr a Chyd-destun Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Llofnodwyd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) ym mis Mawrth 2016 ac mae'n gytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deg arweinydd y P-RC leol. Mae'n cynnwys buddsoddiad o £1.2bn yn seilwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy Gronfa Fuddsoddi 20 mlynedd.

## Gyrwyr Polisi'r Cyngor

Mae Cynllun Corfforaethol 2018-23 yn nodi uchelgeisiau ac ymrwymiadau'r cyngor i ddinasyddion a'i gyfraniad at saith nod llesiant Cymru fel yr amlinellir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y weledigaeth yw "un cyngor yn cydweithio i wella bywydau". Mae'r cynllun yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n "sail i'r ffordd rydym yn gweithio" a'r gwerthoedd sy'n "llywio sut rydym yn gweithio". Caiff y Cynllun Corfforaethol ei ddiweddaru'n flynyddol ac mae ganddo dri amcan llesiant:

1. Cefnogi economi lwyddiannus a chynaliadwy.
2. Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iach a gwydn.
3. Defnydd gwell o adnoddau;

**Mae Cynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth** yn nodi sut y bydd pob cyfarwyddiaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y cyngor. Maent yn nodi'r camau y bydd y gyfarwyddiaeth yn eu cymryd i gyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol a sut y cânt eu mesur.

Mae nifer o bolisïau, strategaethau a rhaglenni allweddol eraill a fydd yn dylanwadu ar y strategaeth hon ac yn arbennig y cynllun cyflawni sy'n nodi sut y caiff y saith amcan eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth Datgarboneiddio.
- Cynlluniau Adfer Covid-19.
- Rhaglen Digidio.
- Rhaglen Drawsnewid.



# Amcanion Caffael Sefydliadol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r rôl bwysig sydd gan gaffael wrth gyflawni nodau llesiant. Mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft yn nodi bod yn rhaid i'r cyngor "bennu a chyhoeddi amcanion a gynlluniwyd i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol." Mae saith Amcan Caffael Sefydliadol y cyngor yn nodi sut y bydd gweithgarwch caffael y cyngor yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol lleol.

1. Gwneud caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector.
2. Gwella gwaith teg ac arferion diogelu a fabwysiadwyd gan gyflenwyr.
3. Cynyddu buddion cymunedol a ddarperir gan gyflenwyr.
4. Cyfrannu at nod y cyngor i fod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030.
5. Sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw.
6. Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a llywodraethiant cadarn a thryloyw.
7. Hyrwyddo atebion arloesol ac arfer gorau.



# Gwneud Gwariant Caffael yn Fwy Hygyrch i Fusnesau Bach Lleol a'r Trydydd Sector

## Nod

- Sicrhau bod penderfyniadau caffael yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r farchnad leol.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Datblygu ac yna rhoi cyhoeddusrwydd i Ganllaw Gwerthu i'r Cyngor i fusnesau lleol fel eu bod yn glir ynglŷn â sut i wneud busnes gyda'r cyngor.
- Cyhoeddi ein Cofrestr Contractau Corfforaethol ar wefan y cyngor fel bod busnesau'n ymwybodol o'r cyfleoedd caffael tebygol.
- Cynnal digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu a digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr' gyda'r Trydydd Sector a busnesau lleol.
- Sicrhau bod strategaethau lotio sy'n cefnogi busnesau bach a chanolig yn cael eu defnyddio.
- Cynnal dadansoddiad o'r farchnad fel y gellir gwneud penderfyniadau caffael ar sail gwybodaeth.
- Dadansoddi data gwariant a chyfeiriaduron busnes i nodi cyfleoedd i gynyddu'r cyflenwad lleol.
- Sicrhau bod y cyngor yn gwneud cais am daliad prydlon i fusnesau bach a chanolig.

## Byddwn yn dangos cyflawni drwy

- Gynyddu nifer y busnesau sy'n cael mynediad a bod yn llwyddiannus wrth dendro ar gyfer y cyngor
- Cynyddu'r gwariant gyda busnesau lleol.



Cymru Lewyrchus



Cymru o Gymunedol  
Cydlynol



# Gwella Arferion Gwaith Teg a Diogelu a Fabwysiedir gan Gyflenwyr

## Nod

- Sicrhau bod egwyddorion gwaith teg yn cael eu hyrwyddo ar draws y cyngor a bod prosesau caffael yn cynyddu arferion gwaith teg sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Gweithio tuag at Ganllawiau Gwaith Teg Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Cymhwyso meini prawf Gwaith Teg ym mhob tendr a chymhwyso pwysoliadau priodol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Datganiad Caethwasiaeth Fodern y cyngor.
- Annog contractwyr i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb.
- Sicrhau bod contractwyr yn gwybod sut i nodi ac adrodd am bryderon diogelu.

## Byddwn yn dangos cyflawni drwy

- Gyflawni yn erbyn 11 egwyddor y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.




Cymru Iachach



Cymru o Gymunedol  
Cydlynol



Cymru fwy cydradd



# Cynyddu Manteision Cymunedol a Ddarperir gan Gyflenwyr

## Nod

- Cynyddu gwerth buddion cymunedol a ddarperir drwy gontractau'r cyngor.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Mabwysiadu a chyflwyno'r defnydd o'r ThCMau Cymraeg fel elfen wedi'i sgorio ym mhob tendr dros £100,000.
- Gwneud 'cynnig budd cymunedol' y tendrau llwyddiannus yn gytundeb ymrwymiad a rheoli cyflawniad contractau.
- Codi ymwybyddiaeth o fuddion cymunedol yn fewnol i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau diwylliant sefydliadol.
- Adolygu'r broses o weithredu budd cymunedol ac addasu'r dull gweithredu yn ôl y gofyn.
- Annog tendrwy'r i roi cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a lleoliad gwaith.

## Byddwn yn dangos cyflawni drwy

- Gynyddu maint a gwerth y buddion cymunedol a ddarperir drwy'r cyngor a'i gontractau.




Cymru Lewyrchus



Cymru o Gymunedol  
Cydlynol



Cymru fwy cydradd



# Cyfrannu at Nod y Cyngor i fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030

## Nod

- Ymgorffori prosesau caffael sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dull economi gylchol.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Cefnogi mentrau sy'n codi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd ac economi gylchol – yn fewnol a chyda chyflenwyr.
- Ystyried caffael cylchol wrth gwmpasu gofynion i leihau gwastraff.
- Dysgu o arfer gorau a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull gwaelodlin carbon.
- Defnyddio dull costio bywyd cyfan yn gynyddol mewn gwerthusiadau tendro.

## Byddwn yn dangos cyflawni drwy

- Adrodd ar leihau carbon drwy Fwrdd Llywodraethiant Dadgarboneiddio'r Cyngor 2030.



Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang




Cymru wydn



Cymru Lewyrchus



Cymru Iachach



# Sicrhau Gwerth am Arian a Rheoli'r Galw

## Nod

- Sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni o ran costau ac ansawdd bywyd cyfan.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Parhau i reoli a threfnu ein gweithgareddau caffael gan ddefnyddio dull rheoli categorïau.
- Rheoli'r galw am gaffael ar draws y cyngor a hyrwyddo ymgyrch 'Prynu'n Gyfrifol'.
- Defnyddio cytundebau fframwaith rhanbarthol a chenedlaethol lle maent yn cynrychioli gwerth am arian.
- Ymgorffori dull cadarn a chymesur o reoli contractau.
- Gweithio gyda chyfarwyddiaethau i adolygu eu data caffael gwariant a'u Blaengynllun Contractau i nodi cyfleoedd i reoli'r galw a/neu yrru arbedion effeithlonrwydd.
- Cefnogi ac annog cyfarwyddiaethau i ddefnyddio'r "Pum Ffordd o Weithio" wrth gynllunio eu caffaeliadau.

## Byddwn yn dangos cyflawni drwy

- Adrodd ar gyfraniad caffael at dargedau arbedion.



# Sicrhau Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Llywodraethiant Cadarn a Thryloyw

## Nod

- Sicrhau bod gan staff y cyngor ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, ac yn cydymffurfio â hi a Rheolau Gweithdrefn Contract y cyngor.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Sicrhau bod gan staff sy'n rhan o'r broses gaffael y sgiliau, y wybodaeth a'r offer angenrheidiol i weithio'n effeithiol.
- Adolygu a diweddarau dogfennau caffael yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu arfer gorau.
- Sicrhau bod dogfennau, prosesau a rheolaethau caffael ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Adrodd yn rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli ar weithgarwch caffael a diffyg cydymffurfio.
- Cyhoeddi Adroddiad Caffael blynyddol.

## Byddwn yn dangos cyflawni drwy

- Gyhoeddi Adroddiad Caffael blynyddol.





# Hyrwyddo Atebion Arloesol ac Arfer Gorau

## Nod

- Annog a defnyddio arloesedd lle gall leihau costau a / neu wella effeithiolrwydd.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Adolygu'r flaen-biblinell gaffael i nodi cyfleoedd arloesi.
- Sicrhau ymgysylltiad cynnar a pharhaus â chyfarwyddiaethau i gwmpasu a chyflawni eu gofynion.
- Herio chyfarwyddiaethau ar eu trefniadau caffael presennol.
- Chwilio am enghreifftiau o arloesi yn y farchnad ac arfer gorau.

## Byddwn yn dangos cyflawni drwy

- Adrodd a datblygu astudiaethau achos i dynnu sylw at arfer gorau.



# Galluogwyr Allweddol

Mae'r cyngor wedi nodi pum galluogwr allweddol a fydd yn hanfodol i gyflawni'r strategaeth hon:

## POBL

- Parhau i fuddsoddi yn ein Pobl i sicrhau bod gan y Tîm Caffael y sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd priodol.
- Sicrhau bod gan staff y sgiliau caffael, y wybodaeth a'r offer i weithio'n effeithiol ac yn annibynnol.



## PROSES

- Symleiddio a safoni ein prosesau craidd a sicrhau bod ein rheolaethau'n sicrhau cydymffurfriad.
- Sicrhau bod templedi safonol ar waith ar gyfer dogfennaeth caffael a chontractio allweddol a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.



## TECHNOLEG

- Buddsoddi yn nefnydd technoleg ac e-gaffael i fod yn sail ac i symleiddio ein prosesau craidd i staff a chyflenwyr.
- Gwellu ein prosesau Prynu i Dalu (P2P) i lywio arbedion effeithlonrwydd.



## GWYBODAETH

- Rhoi data gwariant amserol cywir i staff i lywio penderfyniadau caffael a nodi cyfleoedd cynilo.
- Cynhyrchu adroddiad perfformiad caffael blynyddol.
- Cefnogi Cyfarwyddiaethau i fanteisio ar eu gwariant i gyflawni eu hamcanion strategol.



## DIWYLLIANT

- Datblygu diwylliant sy'n arloesol ac sy'n herio darpariaeth draddodiadol i wella'r hyn rydym yn ei wneud ac i yrru arbedion.
- Sicrhau bod staff yn deall ac yn gwerthfawrogi rheolau a pholisïau'r cyngor. Sicrhau bod ymgysylltu positif gyda staff ledled y Cyngor i gefnogi ac annog cyflawniad datrysiadau arloesol o fewn rheolau cytunedig y Cyngor a deddfwriaeth ehangach.



## Monitro, Adrodd ac Adolygu

Bydd cynllun cyflawni manwl yn cael ei ddatblygu sy'n nodi'r camau y bydd y cyngor yn eu cymryd i gefnogi'r Strategaeth Gaffael Gymdeithasol Gyfrifol hon. Caiff y Cynllun Cyflawni hwn ei ddiweddarau'n flynyddol a chaiff ei ddefnyddio i reoli ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol.

Bydd y cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol caffael ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Adroddiad cynnydd ar weithredu Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Gaffael Gymdeithasol Gyfrifol.
- Crynodeb o'r contractau a ddyfarnwyd uwchlaw Trothwyon Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Manylion adolygiad ar y graddau y gwnaeth contractau'r cyngor gyfrannu at wella llesiant ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Datganiad o sut mae'r cyngor yn bwriadu gwella ymhellach y modd y darperir lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Crynodeb o'r broses gaffael y mae'r cyngor yn disgwyl ei chynnal yn y ddwy flynedd ariannol nesaf.



## Cymorth a Gwybodaeth Bellach am

**Gwefan Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr -**

<https://www.bridgend.gov.uk/procurement>

yn cynnwys Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Gaffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol sy'n nodi sut y bydd y cyngor yn cyflawni'r strategaeth a'r Adroddiad Caffael blynyddol.

**Cofrestr Contractau Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr -**

<https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/contractau-sydd-wedi-u-dyfarnu>

**Cyngor a chymorth busnes -**

<https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/parth-busnes/cyngor-a-chefnogaeth-i-fusnesau/>

Gwerthwchi Gymru yw'r porth hysbysebu cenedlaethol lle mae sefydliadau sector cyhoeddus Cymru yn gosod eu cyfleoedd contract. <https://www.sell2wales.llyw.cymru/>

**Etenderwales** – yw'r porth ar gyfer cynnal pob tender

<https://etenderwales.bravosolution.co.uk/cym/login.shtml>  
<https://etenderwales.bravosolution.co.uk/cym/login.shtml>

**Construction Line** – yw'r porth y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei ddefnyddio ar gyfer tendrau hyd at y gwerth a bennir yn Rheolau Gweithdrefn Contract y cyngor ar gyfer Gwaith -

<https://www.constructionline.co.uk/>

**Manylion Cyswllt** – Uned Gaffael Gorfforaethol, Lefel 4, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

**E-bost** – [procurementteam@bridgend.gov.uk](mailto:procurementteam@bridgend.gov.uk)

**Ffôn** – 01656 642596

**Gwefan** – [www.bridgend.gov.uk/procurement](http://www.bridgend.gov.uk/procurement) (o 2022)



Strategaeth Gaffael Sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
2021 - 2024

[www.bridgend.gov.uk/cy](http://www.bridgend.gov.uk/cy)